## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (ERWYD, POWYS) (GWAHARDD TRAFFIG DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Erwyd, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob math o draffig (gan gynnwys cerddwyr, marchogion a da byw) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n croesi pont grog Llansteffan ger Bridge Cottage hyd at ganolbwynt y fynedfa breifat i'r eiddo o'r enw Gromain Cottage.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd fydd mynd ar yr A470 tua'r de i Aberhonddu, yr A40 tua'r gorllewin i Lanymddyfri, yr A483 tua'r gogledd-ddwyrain i Lanfair-ym-Muallt a'r A470 tua'r de: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 6 Hydref 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (18:00 – 07:00 o'r gloch) rhwng 6 a 11 Hydref 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (ERWOOD, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF TRAFFIC) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Erwood, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all traffic (including pedestrians, equestrians and livestock) from proceeding on the length of the A470 trunk road that extends from the centre-point of its junction with the road that crosses Llanstephan suspension bridge at Bridge Cottage to the centre-point of the private means of access to the property known as Gromain Cottage.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A470 to Brecon, westbound A40 to Llandovery, north-eastbound A483 to Builth Wells and southbound A470: vice versa for southbound traffic.

The Order comes into force on 6 October 2025. The temporary prohibition is expected to operate overnight (18:00 – 07:00 hours) from 6 – 11 October 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government